Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 19) 2020

1. Dyma ymateb y Llywodraeth i adroddiad drafft y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad dyddiedig 22 Hydref 2020.

**Pwynt craffu technegol:**

*Gwall mewn cyfeiriad yn y testun Cymraeg*

2. Mae'r Adroddiad drafft yn nodi y dylai'r testun Cymraeg yn rheoliad 2(4)(a) gyfeirio at "is-baragraff (b)". Mae'r Llywodraeth yn cytuno, ond ni chymerir unrhyw gamau gweithredu gan fod y Rheoliadau wedi eu dirymu am 6.00 p.m. ar 23 Hydref 2020.

**Pwyntiau craffu ar rinweddau:**

*Pwynt 4: manylion ynghylch trefniadau i gyhoeddi adroddiadau o asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb*

3. Ni chyhoeddwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb mewn perthynas â'r Rheoliadau. Mae hyn oherwydd bod y cyfyngiadau teithio a osodwyd gan y Rheoliadau yn ymateb brys i'r darlun a oedd yn gwaethygu o ran mynychder a throsglwyddiad y coronafeirws yng Nghymru a'r cyngor iechyd a oedd yn argymell bod mesurau pellach yn cael eu cymryd yn gyflym i reoli symudiadau pobl.

4. Er na chyhoeddwyd asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar y penderfyniad i ganiatáu i blant deithio'n rhydd ar draws ffiniau ardaloedd diogelu iechyd lleol at ddibenion penodedig, ystyriwyd effeithiau ar gydraddoldeb yn y penderfyniad. Nod y diwygiad a wnaed gan y Rheoliadau yw galluogi plant i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau er mwyn ategu eu hiechyd a llesiant corfforol a meddyliol. Arweiniodd yr ystyriaethau cydraddoldeb at gynnwys mwy na dim ond gweithgareddau chwaraeon yn y diwygiad, gan gydnabod manteision gweithgareddau eraill ar iechyd a llesiant ac nad yw pob plentyn yn gallu cymryd rhan mewn chwaraeon.

5. Ni chynhaliwyd asesiad effaith a oedd yn cwmpasu'r meysydd hyn wedyn oherwydd i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 3) (Cymru) 2020 ddisodli'r Rheoliadau am 6.00 p.m. ar 23 Hydref. Lluniwyd Asesiad Effaith Integredig fel rhan o'r Rheoliadau hynny a gaiff ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.